



Theatr  
Genedlaethol  
Cymru



SHERMAN  
THEATR • THEATRE

# TYLWYTH

GAN / BY DAF JAMES



#Tylwyth

 @TheatrGenCymru  
[theatr.cymru](http://theatr.cymru)



Theatr  
Genedlaethol  
Cymru

Theatr Genedlaethol Cymru  
Rhif cofrestru cwmni / Company  
registration number: 4784488.  
Rhif elusen gofrestredig /  
Registered charity number:  
1106032

 @ShermanTheatre  
[shermantheatre.co.uk](http://shermantheatre.co.uk)



Sherman Cymru Productions Ltd  
Rhif Cofrestredig / Registered  
Charity Number: 1118364

# TYLWYTH

GAN / BY DAF JAMES

## Y DAITH / THE TOUR

### THEATR Y SHERMAN, CAERDYDD SHERMAN THEATRE, CARDIFF

26 + 27.09.22 19:30

28.09.22 19:00

29.09.22 19:30

30.09.2022 19:30

[shermantheatre.co.uk](http://shermantheatre.co.uk)

029 2064 6900

### FFWRNES, LLANELLI

05 – 07.10.22 19:30

[theatrausirgar.co.uk](http://theatrausirgar.co.uk)

0345 2263510

### THEATR BRYCHEINIOG, ABERHONDDU / BRECON

11.10.22 19:30

[brycheiniog.co.uk](http://brycheiniog.co.uk)

01874 611622

### GALERI, CAERNARFON

14 + 15.10.22 19:30

[galericaernarfon.com](http://galericaernarfon.com)

01286 685 222



Performiad gyda dehongliad BSL  
Performance with BSL interpretation



Performiadau gyda chapsiynau  
Captioned performances

Bydd y testun yn ymddangos wrth  
iddo gael ei berfformio ar sgrinâu trwy  
gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg  
The text will appear as it is performed  
on screens in both Welsh and English

### CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

18 + 19.10.22 19:30

[aberystwythartscentre.co.uk](http://aberystwythartscentre.co.uk)

01970 62 32 32

### HAFREN, DRENEWYDD / NEWTOWN

21.10.22 19:30

[thehafren.co.uk](http://thehafren.co.uk)

01686 948100

### MWLDAN, ABERTEIFI / CARDIGAN

25.10.22 19:30

[mwldan.co.uk](http://mwldan.co.uk)

01239 621200

### PONTIO, BANGOR

28.10.22 19:30

29.10.22 19:30

[pontio.co.uk](http://pontio.co.uk)

01248 38 28 28



Mae **Sibrwd**, yr ap mynediad  
iaith, yn ehangu mynediad i bawb  
i theatr yn y Gymraeg. Ar gael  
ym mhob performiad.

**Sibrwd**, the language access app,  
makes Welsh-language theatre  
accessible to all. Available at  
each performance.

# YN ENGYL AC YN DDYNION BOTH HUMANS AND ANGELS

Daf James



Yn 2010, pan y cynhyrchwyd fy nrama llwyfan gyntaf – **Llwyth** – newidiodd fy myd. Roedd y ddrama'n archwilio'r tensiynau hynny rhwng yr hunaniaeth hoyw a'r hunaniaeth Gymraeg. Roedd hi'n gwreiddio'r profiad hoyw ym mytholeg a diwylliant y Cymry: **Y Gododdin**, lolo Morganwg, ein caneuon pop cyfoes, ein hemynau, a beirdd mawr yr Ugeinfed Ganrif. Roedd hi'n datgan yn falch bod 'Cymraeg yn queer'; bod pomp a champrwydd i'n diwylliant... o'r Orsedd i Margaret Williams! Gyda hyn, roedd y ddrama'n dyrchafu'r hyn sydd gennym yn gyffredin uwchlawn ein gwahaniaethau. Roedd hi'n dathlu bod yr iaith Gymraeg, fel yr hunaniaeth hoyw, yn ddiwylliant lleiafrifol, a bod gennym ni lot fawr i'w ddathlu – fel slaradwyr Cymraeg ac fel pobl hoyw.

Ar y pryd, roedd hi'n teimlo'n beryglus. 'Sgwennes i'r ddrama fel ymateb i'r bwlc truenus ro'n i'n ei weld yn y diwylliant Cymreig. Cyn hynny, nid oeddwn wir wedi gweld fy mhrofriad fel Cymro Cymraeg hoyw wedi'i adlewyrchu ar y llwyfan nac ar y teledu.

In 2010, when my first stage play – **Llwyth** – was produced, my world changed forever. **Llwyth**, or tribe, explored those tensions between my queer identity and my Welsh-language identity. It rooted a gay experience in Welsh mythology and culture: **Y Gododdin**, lolo Morganwg, our contemporary pop songs, our hymns, and the great poets of the twentieth century. It proudly declared that 'Welsh is queer'; that our culture has pomp and camp... from the Gorsedd of the Bards to Margaret Williams! In doing so, the play elevated those things which both cultures have in common above our differences. It celebrated the fact that the Welsh language community, like queer culture, is a minority culture, and that we have a great deal to be proud of – as Welsh speakers and queer people.

At the time, it felt dangerous. I wrote the play as a response to the void I saw in Welsh culture. Before that, I hadn't really seen my experience as a gay Welsh-speaking man reflected on stage or on television. Since that perspective

Ond gan bod y profiad hwnnw'n rhywbedd mor neilltuol, ro'n i'n meddwl efallai mai cyfng fyddai'r apêl a bychan fyddai cyrhaeddiad y ddrama. Ond rhaid i artist fentro; rhaid bod yn driw i'w hunan.

'Ddychmyges i fyth y byddai'r ddrama'n cael y derbyniad a gafodd. Nid yn unig yng Nghymru, ond tu hwnt, yn Llundain, Caeredin a Thaiwan. Roedd hi'n uchafbwynt gyrra ac yn uchafbwynt personol. Roedd gweld fy rhieni ar eu traed yn cymeradwyo drama am gymeriadau hoyw mewn cynulleidfa o'u cyfoedion yn drawsnewidiol a theimladwy ofnadwy. Dwi dal yn hynod ddiolchgar am y profiad hwnnw. Roedd byd gormesol fy mebyd wedi newid er gwell.

Ac roedd y byd hwnnw'n parhau i droi. Erbyn 2014, roedd cyplau hoyw yn medru priodi'n gyfreithlon am y tro cyntaf, ac yn 2016 bu'n bosib i mi a fy mhartner Hywel fabwysiadu dau fachgen bach; ond roedd y byd hefyd wedi newid er gwaeth. Roedd lleisiau a rhagfarnau'r dde ar gynnydd, yn arbennig wedi i Trump ddod yn Arlywydd yn yr Unol Daleithiau, ac wedi i'r Deyrnas Unedig ac i Gymru bleidleisio iadael yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ôl yn 2017, roedd popeth fel petai'n newid ar raddfa frawychus, a minnau newydd ddod yn rhiant a oedd yn stryglan i gadw'i ben uwchben y llif. Pa fath o fyd fyddai fy mhlant yn ei etifeddu? Yn ystod y cyfnod hwn, dyma fi'n digwydd bwrw mewn i Arwel yng Nghanolfan Chapter. Dechreuais barablu fel dyn o'i gof. Roedd y byd yn bendramwnwgl. Roedd popeth yn wahanol; fy mywyd personol, fy hunaniaeth hoyw, Cymru – y cyfan rhyswsut a'i ben i waered, a doedd gen

was so specific, I thought the play would have quite a niche appeal, and its reach would be limited. But an artist must take risks; he must be true to himself.

I never imagined that the play would get the reception it did. Not only in Wales, but further afield, in London, Edinburgh and Taiwan. It was both a career highlight as well as a personal one. Watching my parents and their peers standing to applaud a play with a cast of gay characters was transformative and incredibly moving. I'm still so grateful for that experience. The oppressive world of my childhood had changed for the better.

And that world kept turning. By 2014, it was legal for the first time for gay couples to get married, and in 2016 it was possible for me and my partner to adopt two little boys; but the world had also changed for the worse. Voices and prejudices of the right were on the rise, especially after Trump became President Of the United States, and after the United Kingdom and Wales voted to leave the European Union.

Back in 2017, everything seemed to be changing at such an alarming rate, and I had just become a parent struggling to keep my head above water. What kind of world would my children inherit? During this period, I happened to run into Arwel in Chapter Arts Centre. I began rambling incoherently. The world was topsy-turvy. Everything was different; my personal life, my identity, Wales – it all seemed so confused, and I had no idea who I was anymore. And as I reached the end of my frantic monologue, I blurted out, "Well, you know what? There's another play here, isn't there?" As soon as I'd said those words, there was no turning back.

i ddimm cliw pwy ro'n i rhagor. Ac wrth ddod i ddiwedd fy monolog gorffwyl dyma fi'n yngan y geiriau, "Wel, ti'n gwbot beth? Mae 'na ddrama arall yma, yn 'does?" Unwaith i mi yngan y geiriau, amhosib oedd eu dwyn yn ôl.

Ond Nefoedd Wen, roedd gen i ofn! Pam mynd yn ôl? Ofn 'coll?' Roedd 'llwyddiant' y ddrama gyntaf honno fel petai'n pwysô'n drwm arnaf. Ond rwyf wedi dysgu nad yw ofn yn rheswm i beidio mentro. A dweud y gwir, mae ofn yn aml yn rheswm dros fentro. "*Paid â bod ofn agor dy galon!*" Yn enwedig pan rydych ar dân ynghylch rhywbeth, â rhywbeth i'w ddweud; stori sy'n mynnu cael ei hadrodd. Roedd y tân dan Bair y Dadeni ynghyn.

Roedd sgwennu **Tylwyth** fel ymweld â hen ffrindiau. Roedd eu lleisiau mor glir ag erioed. A 'doedd dim rhyfedd, am fod y cymeriadau hynny, yn eu hanfod, wedi'u hysbrydoli gan fy ffrindiau personol innau (ysbrydollaeth, nid sail i'r cymeriadau, rhaid ychwanegu!). Roedd Aneurin, Dada, Rhys, Gareth, Gavin... a Dan – cymeriad newydd allweddol sy'n dod â thafodiaith arall i'r pair – yn mynnu cael eu clywed. Roedd yn brofiad annisgwyll, hynod; yn hytrach na 'mod i fel dramodydd yn rho'i'r geiriau iddynt, **nhw** oedd yn dweud wrtha i beth oedd eu hanes, eu pryderon a'r hyn yr oeddent am ei rannu efo'r byd. Rhaid oedd gwrando ar eu lleisiau tyner.

Roedd y ddrama'n ail-ymweld â *llwyth* o ffrindiau, y *llwyth* hoyw a'r *llwyth* Cymraeg. Ond erbyn hyn – a'r *llwyth* wedi troi'n *dylwyth* – roedd 'llwyth' personol Aneurin hefyd wedi dwysâu. Rhaid oedd iddo archwilio'r hyn oedd wedi newid a'r tensiynau niferus oedd yn codi yn sgil hynny – rhwng y queer a'r heteronormative, rhwng unigolyddiaeth

But goodness me, I was scared! Why return? Was I afraid of 'losing'? The 'success' of the first play seemed to weigh heavily on me. But I've learned that fear is not a reason not to go for it. In fact, fear is often a reason to take such risks. To quote the 90s girl band Eden, "*Paid â bod ofn, agor dy galon!*" I Don't be afraid, open your heart. Especially when a creative flame has been ignited and you have something to say; a story that demands to be told. The fire had been lit under Pair y Dadeni, the cauldron of rebirth.

Writing **Tylwyth** was like visiting old friends. Their voices were as clear as ever. And no wonder, because initially, those characters had been inspired by my gang of friends (*inspired by*, not *based on*, I should add!). Aneurin, Dada, Rhys, Gareth, Gavin... and Dan – a vital new character who adds another dialect to the cauldron – insisted on being heard. It was an unexpected, extraordinary experience; I didn't feel like a writer telling them what to say, but rather, **they** told **me** what their story was, what their concerns were and what they wanted to share with the world. Their voices demanded attention.

In Welsh, '*llwyth*' can also mean 'load' or 'burden', as well as 'tribe'. The play revisited a *load* of friends, the gay *tribe* and the Welsh language *tribe*. But by now – as *llwyth* had become *tylwyth*, the tribe had become a family – Aneurin's personal 'burden' was also heavier. He had to examine what had changed and the many tensions that arose as a result – between the queer and the heteronormative, between individualism and responsibility. He had to delve more and more into his personal anxieties or fears, because by now, with perhaps a little more maturity, he was able

a dyletswydd. Rhaid oedd iddo dreiddio fwyfwy i'w bryderon neu ofnau personol, am ei fod, erbyn hyn, gydag ychydig mwy o aeddfedrwydd efallai, yn medru cloddio'n ddyfnach i'w isymwybod: wynebu hen fwganod oedd yn dal eu gafael arno. Mae Aneurin – fel ei ysbyrdoliaeth, a bardd **Y Gododdin** gynt – yn croniclo'r datblygiadau a'r newidiadau sy'n digwydd i Gaerdydd, i Gymru ac i rai o'u llwythau cyfoes. Dyma groniel, o bersbectif dyn hoyw Cymraeg, sy'n dal i esblygu; "make way, make way for progress."

Ond ni welodd Aneurin yr hyn oedd ar y gorwel. Pan y bu'n rhaid i **Tylwyth** gau oherwydd y Pandemig ar ôl pedwar perfformiad yn unig yn ôl yn 2020, roedd hi'n ergyd drom. Roedd y profiad o fod yn rhan o gynulleidfa oedd a safodd ar eu traed yn y Sherman wrth groesawu'r llwyth yn ôl yn rhyddhad enfawr. Mor braf oedd medru cael rhannu'r cymeriadau â chenhedlaeth newydd na welodd y ddrama gyntaf honno, yn ogystal â chyfoedion a hen gyfeillion. Ond yna, dyma'r llen yn disgyn. Dyma'r corau – oedd wedi bod yn ymarfer ar gyfer y daith – yn gorfod tevi; a ninnau'n ansicr pa bryd, neu os, y byddem ni'n dychwelyd. Roeddwn i felly mor ddiolchgar pan glywais ein bod yn cael y cyfle eto i rannu'r gwaith gyda chynulleidfa oedd ledled Cymru. Ond mae'r byd wedi newid yn aruthrol yn y ddwy flynedd a hanner sydd newydd fynd heibio – er gwell, er gwaeth – heb sôn am fy mywyd personol. Erbyn hyn mae Hywel a fi wedi cael merch fach hefyd – mae'r llwyth yn tyfu – ac ry'm ni wedi priodi! Sut fyddwn i'n teimlo'n dod yn ôl at y ddrama? Oedd ganddi rhywbeth i ddweud o hyd?

Braf iawn yw cael dweud fy mod, fel dramodydd, wedi medru ail-berchnogi'r

to dig deeper into his subconscious: face up to old demons that still had their hold of him. Aneurin – like his inspiration, the medieval Welsh poet who wrote **Y Gododdin** – chronicles the developments and changes happening to Cardiff, to Wales and to some of their contemporary tribes. This is a chronicle, from the perspective of a Welsh-speaking gay man, that is still evolving; "make way, make way for progress."

But even Aneurin couldn't see what was on the horizon. When **Tylwyth** had to close due to the Pandemic after only four performances back in 2020, it was a devastating blow. That experience of being part of those audiences, which stood on their feet in the Sherman and welcomed the tribe back had been such a huge relief. It was so wonderful sharing those characters with a new generation that hadn't seen the first play, as well as with old friends. But then, the curtain fell. The choirs – who had been rehearsing for the tour – were silent; and we were unsure when, or indeed if, we'd return. So I was incredibly grateful when I heard that we had the opportunity once again to share the work with audiences all over Wales. But the world has changed enormously in the last two and a half years – for better, for worse – not to mention my personal life. My partner and I now have a little girl too – the tribe is growing – and we've got married too! How would I feel coming back to the play? Did it still have something to say?

I'm pleased to say that I've been able, as a playwright, to own the work once again. **Llwyth** was staged three times, and each time we revisited the script, we revised it constantly to reflect new contexts. The same is true of this staging of **Tylwyth**. It's essentially the same play, but it has evolved a little too: like us all.

gwaith. Cafodd **Llwyth** ei llwyfannu dair gwaith, a phob tro roeddem ni'm ail-ymweld â'r sgrift roeddem ni'n gyson ei diwygio er mwyn adlewyrchu cyd-destunau newydd. Mae'r un peth yn wir am y llwyfaniad yma o **Tylwyth**. Yr un ddrama yw hi yn ei hanfod, ond mae wedi esblygu rhyw gymaint hefyd: fel ni i gyd. Ac i mi mae'r themâu mor berthnasol ag y buont erioed. Mae **Tylwyth** yn ddrama am ffrindiau, am fod yn hoyw, am fod yn Gymro, am ddosbarth, am wrywdod, am gwilydd, am fod yn blentyn, am fod yn rhiant, a'n dyletswydd cymdeithasol tuag at ein gilydd, ond yn bennaf oll, mae hi'n ddrama am gariad. Mae cymaint o gasineb ac anwirededdau yn cael eu mynegi yn ein gwleidyddiaeth, yn y papurau, ar y teledu ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'n bwysig ein bod ni'n dal i ddathlu cariad yn ei holl ogoniant ac annibendod; ein bod ni'n parhau i ddatgan ein hanthemau cariadus. A 'does neb yn well na phlant i ddysgu i ni rinweddau, rhyfeddod a phŵer nerthol y cariad hwnnw.

Os ydych chi'n gyfarwydd â **Llwyth**, mi fydd yr ieithwedd theatraidd yn adnabyddus; yr iaith farddonol, yr iaith bob dydd, tafodieithoedd gwahanol, rhithiau ffantasiol, y gerddoriaeth, a'r *mash-ups* diwylliannol. Mae'r ddrama yn ail ran i **Llwyth**, yn rhan o'r un cyfanwaith felly, ac yn parhau ar hyd y llwybrau â gychwynnwyd yn y ddrama gyntaf honno. Ond mae hi hefyd, gobeithio, yn sefyll ar ei thraed ei hun fel drama annibynnol. Bu Arwel, unwaith eto, yn gyd-grêwr anhygoel; yn arwain, yn annog, yn herio, yn gwthio, yn galluogi. Mae'r tîm creadigol a'r actorion mor frawychus o dalentog. Diolch i'r Duwiau amdanynt. A diolch yn ogystal i fy nhylwyth hynod innau – Hywel a'r plant – am fod yn engyl ar y Ddaear.

And to me, the themes are as relevant as they've ever been. **Tylwyth** is a play about friends, about being gay, about being Welsh, about class, about masculinity, about shame, about being a child, about being a parent, and our social responsibility towards each other, but most of all, it's a play about love. So much hatred and so many lies are expressed in politics, in the papers, on television and on social media. It's important that we still celebrate 'cariad' in all its glory and messiness; that we continue to sing our anthems of love. And who better to teach us the virtue, wonder and power of love than children.

Those familiar with **Llwyth**, will recognise here its theatrical language; the poetic, the colloquial, the variety of dialects, the magic realism, the music, and the cultural mash-ups. The play is a second part to **Llwyth**, part of the same whole, and continues along those paths first created there. But I hope it also stands on its own as an independent work. Arwel has been, once again, an incredible co-creator; leading, encouraging, challenging, pushing, enabling. The creative team and actors are frighteningly talented. I thank the Gods for them. Thanks too to my remarkable *tylwyth*, my family – Hywel and the children – for being angels on Earth.

Queer people, like the Welsh, are used to 'losing.' Like the soldiers of the **Gododdin** from long ago, we have fought battles that have often felt hopeless, or impossible to win, perhaps. So it's easy to see ourselves through the prism and narrative of victimhood; to see ourselves as unworthy and undeserving of love. How easy it is to believe that narrative; to believe in our shame. How easy it is to put on an armour made in the furnace of some troubled past (even if that was

Mae pobl hoyw, fel y Cymry, wedi hen arfer â 'cholli.' Fel milwyr **Y Gododdin** gynt, ry'm ni wedi ymladd brwydrau oedd yn teimlo'n anobeithiol, rhai nad oedd modd i'w hennill, efallai. Rhwydd felly yw gweld ein hunain drwy brism a naratif y dioddefwr; gweld ein hunain fel rhai nad ydynt yn deilwng, nad ydynt yn haeddu cariad. Mor rhwydd yw credu'r naratif hwnnw; credu yn ein cywilydd. Mor rhwydd yw gwisgo amdanom arfwiwg a luniwyd yn ffwrnes rhyw offennol cythryblus (dychmygol, efallai) a hyrddio'n hunain ymlaen, yn lle sefyll yn noeth a wynebu'r haul yn ei holl ogiont.

Pa bynnag *lwyth* sy'n cynnig noddfa inni – boed y Cymry, y gymuned LHDC+, neu unrhyw *lwyth* arall – medrwn gerdded yn eofn i'r dyfodol, er gwaethaf y brwydrau sydd i ddod. Rydym i gyd yn greaduriaid rhyfeddol, cymhleth, twyll a gogoneddus. Rydym i gyd yn ymdrybaeddu mewn rhyw drythyllwch ac yn dawnsluo gyda'r Duwiau; yn filwyr ac yn artistiaid. Ac mae cariad yn rym iachusol sy'n uno. Am ein bod ni i gyd yn engyl ac yn ddynion. A does 'na ddim cywilydd yn hynny.

I'r sawl sydd wedi gweld **Tylwyth** eisoes – i nifer efallai, y profiad diwethaf o theatr byw cyn y Clo Mawr – croeso mawr yn ôl, a diolch am ddod eto i ddatbhlur ail-ddyfodiad! Ac i gynulleidfaeodd newydd – croeso cynnes iawn i chi. Ry'm ni wedi bod yn disgwyl amdanoch ers amser maith, a wir, ry'm ni'n falch ofnadwy o'ch gweld chi.


perhaps imagined) and storm forward, instead of standing vulnerably for a moment, facing the sun in all its glory.

Whichever tribe offers us sanctuary – be it the Welsh language community, the LGBTQ+ community, or any other tribe – we can walk boldly into the future, despite the battles to come. We are all magnificent, complex, dark and glorious creatures. All wallowing in the darkness and dancing with the Gods; both soldiers and artists. And love is a healing force that unites. Because we are all humans and angels. And there's no shame in that.

For those who have already seen **Tylwyth** – and for many, perhaps it was the last experience of live theatre before the Lockdown – welcome back and thank you for coming once again to celebrate the second coming! And to new audiences – a very warm welcome to you. We've been waiting for you for a long time, and we're so very glad to see you.

# NEWID BYD CHANGING TIMES

## Arwel Gruffydd



Llun / Image: Kirsten McTernan

Ddeuddeng mlynedd yn ôl, a minnau ar y pryd yn Gyfarwyddwr Cyswllt yn y Sherman, pan gefais y pleser eithriadol o gyfarwyddo drama lwyfan gyntaf Daf James, *Llwyth*, fe wydawn yn fuan, wrth imi ddarllen drafftiau cynnar, wrth i Daf a minnau drafod y gwaith, ac yna wedyn wrthi inni gychwyn ei rhoi ar ei thraed gyda'r actorion, bod hon yn ddrama eithriadol. Roedd Daf a minnau hefyd yn ymwybodol iawn o'r rafaith bod y ddrama'nadlewyrchu ein profiad ni, fel dynion hoyw Cymraeg ein hiaith, mewn modd nad oedd wedi digwydd erioed cyn hynny. O'r diwedd, dyma'n stori neilltuol ni ar lwyfan... unrhyw lwyfan! Ac roedd y stori honno'n dod o lygaid y ffynnon, fel petai; ni ein hunain – yn artistiaid theatr hoyw Cymraeg ein hiaith – oedd yn cael ei dweud. Roedd hyn yn brofiad ysbrydoledig; dyrchafol, hyd yn oed. Roeddwn i'n weddol sicr hefyd y byddai'r gwaith yn cael derbyniad da, ac y byddai cynulleidfaoedd y tu hwnt i'r gymuned LHDT+ yn ei gweld yn berthnasol. Roedd gonestrwydd a chrefft y sgwennu, y profiadau a'r emosiynau dwys oedd yn cael eu harchwilio, ac arddull theatraidd unigryw ac eithriadol

It was twelve years ago, when I was an Associate Director at the Sherman, that I had the great pleasure of directing Daf James' first stage play, *Llwyth*. I soon realised, as I read early drafts, as Daf and I discussed the work, and then as we started to put it on its feet with the actors, that this was an exceptional play. Daf and I were also acutely aware of the fact that the play reflected our own particular experience, as Welsh-speaking gay men, in a way that had never happened before. At last, this was our story on stage... any stage! And that story was being told authentically; was being told by us – Welsh-speaking gay theatre artists. This was an inspirational and elevating experience for me. I was also fairly confident that the work would be well-received, and that audiences beyond the LGBT+ community would find it relevant. The honesty and craftsmanship of the writing, its unique and exceptional theatricality, and the intense experiences and emotions being explored convinced me of that. But neither Daf nor I could have prepared ourselves for the wave of appreciation that followed. If the experience of creating the work was



y gwaith wedi fy argyhoeddi o hynny.  
Ond allai Daf na minnau ddim bod  
wedi paratoi ein hunain ar gyfer y don o  
werthfawrogiad a ddilynodd. Os oedd y  
profiad o lunio'r gwaith yn un dyrchafol,  
roedd profi gwres a brwdrydedd yr  
ymateb ledled Cymru a thu hwnt, yn  
dyblu a threblu'r profiad hwnnw. A  
minnau ers degawdau, oherwydd fy  
hunaniaeth o ran rhywioldeb, wedi  
teimlo rhywsut ar yr ymylon, yn is-raddol,  
yn ymrafael yn aml â theimladau o  
annigoneidd a chywilydd, hyd yn oed,  
roedd y profiad a gefais yn sgil yr ymateb  
i **Llwyth** yn un trawsnewidiol. Nid yn  
unig yr oedd cynulleidfa oedd mewn  
theatrau llawn ar eu traed yn dangos  
eu gwerthfawrogiad o'r gwaith, ond  
ymddangosai fel petai hwynt hefyd,  
yn anuniongyrchol o leiaf, rhywsut yn

an elevating one, experiencing the warmth and enthusiasm of the response throughout Wales and beyond, doubled and tripled that experience. As someone who, because of my sexual identity, had felt for decades that I was somehow on the margins, inferior, often struggling with feelings of inadequacy and even shame, experiencing the response to **Llwyth** was for me transformative. Not only were audiences in packed theatres standing, as it were, in appreciation for the work, but it seemed as if they were also, at least indirectly, somehow applauding and celebrating that very identity which had been for me till then a source of fear and anxiety. It gave me a personal and professional confidence that I could never have imagined.

dathlu'r hunaniaeth hwnnw a oedd wedi bod yn gymaint o achos ofn a phryder i mi. Rhoddodd imi hyder personol a phroffesiynol na allwn i fyth cyn hynny fod wedi ei ddychmygu.

Yn dilyn llwyddiant taith gyntaf **Llwyth** (ac fe fu fair, i gyd), fe aeth y cynhyrchiad hwnnw ymlaen i llwyddiant pellach yng Ngŵyl Ymylol Caeredin; llwyddiant a arweiniodd at ymwelliad rhyfeddol â Gŵyl Gelfyddydol Ryngwladol Taipei yn Nhaiwan, lle bu i'r profiad hoyw Cymraeg eto, rhwysut, daro tant.

A dlyma ni yn ôl gydag ail bennad y stori.

Yn sgil Cofid 19, bu'n rhaid canslo'r daith wreiddiol a fwriadwyd o **Tylwyth**. Roedd hyn yn fater o dristwch a siom, wrth reswm. Ond mae dychwelyd at y ddrama ddwy flynedd a hanner yn ddiweddarach wedi rhoi cyfle i ni ail-ystyried, i ryw raddau, yr hyn a grëwyd yn gynnar yn 2020. Er bod y cynhyrchiad, i bob pwrrpas, yr un a gyflwynwyd yn y Sherman ddechrau Mawrth 2020, wrth baratoi ac ymarfer y tro hyn, rydym wedi diwygio'r gwaith rhyw fymryn yma ac acw, a'r diwygiadau hynny'nadlewyrchu rhyw gymaint, gobeithio, yr hyn sydd wedi newid ers hynny yn ein cymdeithas ac yn y byd yn gyffredinol, yn ogystal ag ynom ninnau fel pobl ac fel artistiaid. Wedi dweud hynny, fe ddigwydd y rhan helaethaf o'r ddrama dros un penwythnos ddechrau Mawrth 2020, sef y cyfnod hwnnw pan oeddem ni, fel y mae cymeriadau'r ddrama, yn clywed gyntaf oll am y firws newydd a ddaeth i mewn i'n byd, a chyn bod ei ganlyniadau erchyll wedi dod yn amlwg.

Fe newidiodd **Llwyth** fy mywyd i am byth. Mae wedi bod yn destun balchder personol i mi i ddarganfod dros y

Following the success of the first tour of **Llwyth** (and there were three in total), the production went on to further success at the Edinburgh Fringe Festival; a success that led to an astonishing visit to the Taipei International Arts Festival in Taiwan, where the Welsh-speaking gay experience again, somehow, struck a chord.

And here we are, back with the second chapter of the story.

Due to Covid-19, the original planned tour of **Tylwyth** had to be cancelled. This was clearly a source of sadness and disappointment. But returning to the play two and a half years later has given us the opportunity to reconsider, to some extent, what we created in early 2020. Although the production is, to all intents and purposes, the same production that was presented at the Sherman Theatre at the beginning of March 2020, during preparations and rehearsals this time around, we have revised the work slightly here and there; and those revisions hopefully reflect somehow what has changed since then in society and in the world in general, as well as in us as people and as artists. Having said that, the greater part of the play takes place over one weekend in early March 2020, that period when we, like the characters in the play, were beginning to digest the news about a new virus that had entered our world, before its horrendous consequences had become apparent.

**Llwyth** changed my life forever. It's been a source of personal pride for me to discover over the years that the production also made a deep impression and had a positive influence on many others. As we again present **Tylwyth**, the second chapter of this remarkable story,

blynnyddoedd i'r cynhyrchiad hefyd gael argraff ddofn a dylanwad cadarnhaol ar nifer o rai eraill. Wrth inni eto gyflwyno **Tylwyth**, ail bennod y stori hynod hon, fe obeithiaf y bydd yn diddanu a chyffwrdd cynulleidfaeodd lawn cymaint ag y gwnaeth ei phennod gyntaf, ac yn rhoi hyder trawsnewidiol i rai sy'n teimlo eu bod ar yr ymylon. Mae llawer wedi newid oddi ar 2010 cyn belled ag y mae hawlau ac agweddau yn ymwnneud â hunaniaethau LHDT+ yn y cwestiwn, ac mae'r tirwedd o ran y materion hyn yn parhau i newid yn gyson. Ond fel y dywed un o gymeriadau'r ddrama, "Ni dal ofn dala dwylo'n gyhoeddus." Mater cymharol fychan, fe allech ddadlau; ond mae'n arwyddo bod *problem* o hyd nad yw wedi'i datrys, neu frwydr nad yw wedi'i hennill. Boed hynny oherwydd ofn neu gywilydd, â pharodïo anthem boblogaidd, "Ry' ni'n cuddio o hyd!" Wel, dyma eich rhybuddio, cyn i'r llen godi, 'dydym ni ddim yn cuddio heno!

Hyderaf felly bod y ddrama newydd hon yr un mor berthnasol yn awr ag yr oedd yn 2020. Mae'n herio rhai o'n hagweddau fel cymdeithas, yn adlewyrchu ein profiad a threiddio i'n hunaniaeth, nid yn unig fel dynion hoyw, fel aelodau o'r gymuned LHDT+ yn ehangach, ac fel siaradwyr Cymraeg, ond hefyd y tu hwnt i hynny, mewn byd cymhleth a rhngberthynol sydd, ar y naill law, yn gyson wthio rhai i'r cyrion ac, ar y llaw arall – boed hynny efallai o ganlyniad i gyfoeth materol, iaith, hil, neu'r ffaith syml o fod mewn mwyafrif – yn dyrchafu eraill.

I hope that it will entertain and touch audiences just as much as its first chapter did, and give transformative confidence to those who feel they are on the margins. Much has changed since 2010 as far as rights and attitudes regarding LGBT+ identities are concerned, and the landscape in this regard is still changing constantly. But as one of the play's characters says, "We're still afraid to hold hands in public." A relatively minor issue, you could argue; but it signifies that there is still a *problem* that hasn't been solved, or a battle that hasn't yet been won. Whether it's because of fear or shame – to misquote a Welsh-language anthem that's recently found new popularity – we're not so much "yma o hyd", still here, as we are "cuddio o hyd", still hiding. So here's a word of warning, before the curtain goes up, we're not hiding tonight!

I feel that this new play is as relevant now as it was in 2020. It challenges some of our attitudes as a society, it reflects our experience and explores our identity, not only as gay men, as members of the wider LGBT+ community, and as Welsh speakers, but also beyond that, in a complex and intersectional world that, on the one hand, constantly pushes some to the margins and, on the other hand – whether as a result perhaps of material wealth, language, race, or the simple fact of being in a majority – elevates others.



# CORAU TYLWYTH

# TYLWYTH'S CHOIRS



Mae cerddoriaeth yn elfen hynod bwysig o **Tylwyth**: cerddoriaeth draddodiadol, gyfoes a gwreiddiol. Yn wir, mae cerddoriaeth wrth galon y ddrama hon sydd, fel ei rhagflaenydd **Llwyth**, yn cydnabod traddodiad corawl heb ei ail Cymru trwy gynnwys côr yn canu'n fyw ar y llwyfan yn ystod pob perfformiad.

Meddai Daf: "Roedd cyfraniad y corau i **Llwyth** yn rhan hanfodol o lwyddiant y ddrama. Trwy eu hymddangosiadau hwy ar lwyfannau ledled Cymru a thu hwnt, cafodd y sioe ei gwreiddio o fewn cymuned estynedig, gan ddangos mewn ffordd hyfryd bod yr hyn rydyn ni'n ei rannu yn goresgyn ein gwahaniaethau. Mae **Tylwyth** yn adleisio ac yn datblygu'r elfen hon."

Music is a hugely important element of **Tylwyth**; traditional, contemporary and original. In fact, music is at the heart of this play which, like its predecessor **Llwyth**, recognises Wales's incomparable choral tradition with the inclusion of a choir live on stage during each performance.

Daf said: "*The choirs' contribution to **Llwyth** was a crucial part of the play's success. Their appearances on stages across Wales and beyond grounded the show within an extended community, beautifully signifying that what we share transcends our differences. **Tylwyth** echoes and develops this gesture.*"

Rydym wedi gwahodd corau o ardal oedd ledled Cymru i berfformio yn y ddrama. Diolch o galon i **Gôr Aelwyd JMJ** sy'n perfformio ym Mangor, **Côr Dre** yng Nghaernarfon, **Côr Aelwyd Pantycelyn** yn Aberystwyth, **Corlan** yn Aberteifi, **Côr Seingar** yn Llanelli, **Côr y Pentan** yn y Drenowydd, côr **Alive and Kickin' Community Choir Brecon** yn Aberhonddu, a **Chôr Aelwyd y Waun Ddyfal** ochr yn ochr â phobl ifanc o **ABC (Academi Berfformio Caerdydd)** yng Nghaerdydd. Torwch goes!

We've invited choirs across the nation to perform in the play. And we'd like to extend our heartfelt thanks to **Côr Aelwyd JMJ** performing in Bangor, **Côr Dre** in Caernarfon, **Côr Aelwyd Pantycelyn** in Aberystwyth, **Corlan** in Cardigan, **Côr Seingar** in Llanelli, **Côr y Pentan** in Newtown, **Alive and Kickin' Community Choir** Brecon in Brecon, and **Aelwyd y Waun Ddyfal** choir alongside young people from **ABC (Academi Berfformio Caerdydd/The Cardiff Performance Academy)** in Cardiff. Break a leg!



Lluniau o ymarferion cyn perfformiadau *Tylwyth* yn 2020 / Images from rehearsals ahead of *Tylwyth* performances in 2020

# CAST

Arwel Davies  
Danny Grehan  
Steffan Harri

RHYS  
DADA  
DAN

Michael Humphreys  
Aled ap Steffan  
Simon Watts

GARETH  
GAVIN  
ANEURIN

# ÂM CREADIGOL A CHYNHYRCHU CREATIVE AND PRODUCTION TEAM

Dramodydd / Playwright

**Daf James**

Cyfarwyddwr / Director

**Arwel Gruffydd**

Cynllunydd Set a Gwisgoedd /

Set and Costume Designer

**Tom Rogers**

Cyfansoddwr, Cyfarwyddwr Cerdd a  
Threfniannau Cerddorol Gweiddiol

Composer, Music Director and  
Original Music Arrangements

**Daf James**

Cynllunydd Goleuo / Lighting Designer

**Ceri James**

Cynllunydd Sain / Sound Designer

**Sam Jones**

Cyfarwyddwr Cynorthwyo /  
Assistant Director

**Elen Mair Thomas**

Cyfarwyddwr Corfforol /  
Movement Director

**Eddie Ladd**

Cyfarwyddwr Llais / Voice Director  
**Nia Lynn**

Awdur Sibrwd / Sibrwd Writer  
**Chris Harris**

Cynhyrchydd Cerddorol / Music Producer  
**James Clarke**

Cynhyrchydd / Producer  
**Fflur Thomas**

Uwch-gynhyrchydd / Executive Producer  
**Rhian Davies**

Cynhyrchydd Cerddorol / Music Producer  
**James Clarke**

Rheolwr Cynhyrchu / Production Manager

**Angharad Mair Davies**

Rheolwr Technegol / Technical Manager

**Gareth Hughes**

Rheolwr Llwyfan / Stage Manager

**Tom Ayres**

Dirprwy Reolwr Llwyfan

Deputy Stage Manager

**Lisa Mair Briddon**

Rheolwr Llwyfan Cynorthwyo /

Assistant Stage Manager

**Macx Roche**

Goruchwyllydd Gwisgoedd

Costume Supervisor

**Erin Maddocks**

Goruchwyllydd Gwisgoedd Ar Daith

Touring Costume Supervisor

**Sabirin Osman**

Ail Oleuydd / Re-lighter

**Jeannette Baxter**

Peiriannydd Sain / Sound Engineer

**Dan Jones**

Peiriannydd Sain 2 / Sound Engineer 2

**Ieuan Fishburn**

Gweithredydd Sibrwd / Sibrwd Operator

**Chris Harris**

Dehonglydd BSL / BSL Interpreter

**Cathryn McShane**

Gweithredwyr Capsiynau

Captions Operators

**Gwawr Loader + Elen Mair Thomas**

Adeiladwyr Set / Set Construction

**Gweithdy Theatre Sherman /  
Sherman Theatre Workshop**

# STAFF THEATR GENEDLAETHOL CYMRU STAFF

Pennaeth Cynhyrchu /  
Head of Production

**Angharad Mair Davies**

Cynhyrhydd Gweithredol  
Executive Producer

**Rhian A. Davies**

Rheolwr Marchnata Dros Gyfnod Mamolaeth  
Marketing Manager Maternity Cover

**Heulwen Davies**

Cydlynnydd Datblygu Creadigol  
Creative Development Coordinator

**Melangell Dolma**

Cyfarwyddwr Artistig / Artistic Director

**Steffan Donnelly**

Swyddog Technegol / Technical Officer

**Ffen Evans**

Swyddog Marchnata a Chyfathrebu  
Marketing and Communications Officer

**Angharad Griffiths**

Rheolwr Cyllid / Finance Manager

**Meinir James**

Cyfarwyddwr Gweithredol  
Executive Director

**Angharad Jones Leefe**

Swyddog Gweinyddiaeth a Chyllid  
Administration and Finance Officer

**Nesta Jones**

Cynhyrhydd Cynorthwyo! / Assistant Producer

**Gavin Richards**

Swyddog Marchnata a Chyfathrebu  
Marketing and Communications Officer

**Elin Cain Roberts**

Cynhyrhydd / Producer

**Nia Wyn Skyrme**

Cynhyrhydd / Producer

**Fflur Thomas**

Cydlynnydd Cyfranogi  
Participation Coordinator

**Sian Elin Williams**

Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu  
Marketing and Communications Manager

**Ceri Williams**

## BWRDD YMDDIRIEDOLWYR /

## BOARD OF TRUSTEES

Efa Gruffudd Jones (Cadeirydd / Chair)

Dr Nia Edwards Behi

Jacob Dafydd Ellis

Slôn Fôn

Elwyn Jones

Gwyn Jones

Fiona Phillips

Catherine Rees

Rhys Miles Thomas

Gwyn Williams

Meilir Rhys Williams

# STAFF THEATR Y SHERMAN

# SHERMAN THEATRE STAFF

## Executive / Gweithredol

Artistic Director / Cyfarwyddwr Artistig

**Joe Murphy**

Executive Director / Cyfarwyddwr Gweithredol

**Julia Barry**

## Artistic Administration

### Gweinyddiaeth Artistig

Producing and Programming Manager

Rheolwr Cynhyrchu a Rhaglennu

